# PECYN ADNODDAU

## GORNEST LYFRAU 2026



Categori Uwchradd


# Cynnwys


**Celwydd Noeth** 3
Adnabod Awdur – Heiddwen Tomos 5

**Jac a'r Angel** 7
Adnabod Awdur – Daf James 9

**Ein Cymru Ni** 11
Adnabod Awdur – Richard Parks 13

**Anturiaethau'r Brenin Arthur** 15
Adnabod Awdur – Rebecca Thomas 17














## Celwydd Noeth

**Heiddwen Tomos**


Y Lolfa | 978-1-800996-96-0

Mae bywyd Gwen wedi newid am byth ar ôl i luniau ohoni gael eu rhannu heb ei chaniatâd. Ond mae cael sylw am lun da yn werth popeth... on'd yw e? A pha effaith mae hyn yn mynd i'w gael ar Efa a Cai?
Nofel emosiynol ar gyfer yr arddegau sy'n ymdrin â secstio, hunaniaeth, iechyd meddwl a pherthyn.

### Cwestiynau trafod

- Mae'r nofel hon yn ddilyniant i *Heb Law Mam*. Ydych chi wedi darllen y nofel hon? Ydych chi'n meddwl bod angen ei darllen er mwyn deall y nofel *Celwydd Noeth*, neu a yw hi'n gallu sefyll ar ei phen ei hun? Rhowch resymau.
- Gallwch chi drafod y berthynas sy'n bodoli yng nghartref Efa rhyngddi hi a'i rhieni, a'i chwaer fach, Siriol?
- Sut fyddech chi'n cymharu bywyd cartref Efa gyda chartref Gwen?
- Sut fyddech chi'n disgrifio perthynas Efa a Gwen? Ydych chi wedi profi perthynas debyg? Neu yn adnabod merch debyg i Gwen yn eich ysgol chi?
- Pwy yw Cadi? Sut gymeriad yw hi? Disgrifiwch berthynas Cadi ac Efa. A fyddech chi'n hoffi cael ffrind fel Cadi? Esboniwch pam.
- Ydych chi wedi darllen llyfr arall lle mae un o'r cymeriadau yn hunan-niweidio? Sut mae'n gwneud i chi deimlo? Pam ydych chi'n credu byddai person yn hunan-niweidio? Pam, yn eich barn chi, mae Gwen yn hunan-niweidio? Os fyddech chi'n gallu rhoi cyngor i Gwen pan oedd hi'n hunan-niweidio, beth fyddech chi'n ei ddweud wrthi?

- Roedd Efa'n teimlo ei bod hi wedi cael ei bradychu gan Cai am ei fod wedi cusanu Gwen yn y parti. Ydych chi'n gwybod beth yw ystyr y gair 'bradychu'? Sut fyddech chi'n teimlo petaech chi'n cael eich bradychu gan rywun?
- Ydych chi wedi cael gwers am secstio yn yr ysgol? Ydych chi'n credu fod y nofel hon wedi llwyddo i bwysleisio'r peryglon? Sut?
- Ydych chi'n credu fod y nofel hon yn addas ar gyfer pobl ifanc eich oedran chi?
- Beth yw eich barn chi am deitl y nofel? A yw'r teitl yma'n addas? Pam? Beth yw eich barn fod gan bob pennod enw? Oes mantais i hyn, yn eich barn chi?



## Gweithgaredd grŵp neu ddosbarth

Un thema gref yn y llyfr yw ffonau a chyfryngau cymdeithasol. Yn gyntaf, beth am drafod pam ydych chi'n credu fod y cyfryngau cymdeithasol mor bwysig i Gwen? Dywedodd Gwen na fyddai hi'n gallu byw heb ei ffôn. Oes gennych chi ffôn symudol? Ydych chi'n teimlo eich bod yn ddibynnol iawn arno? Gallech chi fyw hebddo? A ydych chi'n teimlo pwysau gan bobl eraill ar y cyfryngau cymdeithasol i ymddwyn mewn ffordd benodol, neu i wneud pethau er mwyn bod yr un peth â nhw? Ar ôl trafod y cwestiynau hyn, beth am drafod manteision ac anfanteision y cyfryngau cymdeithasol a sut mae'n gallu effeithio ar bobl ifanc mewn ffordd bositif a negyddol? Gallwch wahanu'n dimau – un tîm sy'n edrych ar y manteision, a thîm arall i edrych ar yr anfanteision.


## Wedi mwynhau *Celwydd Noeth*? Beth am roi cynnig ar y rhain nesaf?

- Cyfres #Helynt – Rebecca Roberts – Gwasg Carreg Gwalch
- *Heb Law Mam* – Heiddwen Tomos – Y Lolfa
- Cyfres Curiad Coll – Alun Saunders – Rily
- *Sblash!* – Branwen Davies – Y Lolfa



Adnabod Awdur

# Heiddwen Tomos



**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?** Llanybydder a Cwrtnewydd.

**Ble aethoch chi i'r ysgol?** Ysgol Gynradd Llanybydder ac Ysgol gyfun Llanbedr Pont Steffan.

**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?** Roeddwn yn dwli tynnu lluniau. Roeddwn yn casáu darllen pan oeddwn yn iau.

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny?** Roeddwn am fod yn artist.

**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?** *Trysor Plasywernen*, T. Llew Jones.

**Beth yw eich diddordebau?** Bellach rwy'n mwynhau rhedeg, ysgrifennu, treulio amser gyda'r teulu.

**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?** Cyflawni pethau fyddwn i ddim wedi meddwl eu gwneud.

**Beth sy'n eich gwylltio chi?** Annhegwch a phobl sydd yn damsgen ar bobl eraill.

**Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?** Tra oeddwn yn ddisgybl yn Ysgol Llanbed, roedd fy athrawes Gymraeg yn canmol ac yn frwdfrydig ac fe wnaeth hyn roi hyder i mi ddechrau cystadlu.

**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?** O'r bobl o'm cwmpas. Rwy'n joio bod yn bryfyn ar y wal wrth siopa, eistedd mewn caffi, neu hyd yn oed ar ddiwedd ras!

**Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?** Mae nifer iawn o'm llyfrau yn cylchdroi o amgylch rhyw broblem. Felly, mae problemau yn thema amlwg, siŵr o fod.

**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?** Ewch amdani a pheidiwch â barnu eich hunan yn ormodol. Os oes gennych chi ffrind i roi cyngor i chi, yna gofynnwch iddynt wneud hynny. Mae pâr arall o lygaid i ddarllen eich gwaith yn amhrisiadwy.

**Beth yw'r peth gorau/gwaethaf am fod yn awdur?** Y peth gorau yw pan mae eich cynulleidfa yn hoffi ac yn uniaethu gyda'r cymeriadau. Y peth gwaethaf am fod yn awdur yw .... wel, does dim byd gwael am fod yn awdur, dim ond i chi dderbyn bod chwaeth pawb yn wahanol, ac nid oes rhaid plesio pawb.

# Cwestiynau Cyflym

Hoff lyfr o'ch plentyndod?

Trysor Plasywernen.

Hoff gymeriad o lyfr?

Y bachgen yn *Un Nos Ola Leuad* gan Caradog Pritchard.

Hoff fwyd?

Cinio dydd Sul y ferch, Swyn, neu bancwsen Tirion, y ferch ifancaf, gyda llwyth o fenyn.

Hoff le?

Aberaeron neu Mynydd Llanybydder.

Beth sy'n gwneud i chi wenu?

Pnawn dydd Gwener – tua 3.35, neu sêl dda yn y siop Lan Llofft.

Hoff ffilm/rhaglen deledu?

*Come Dine With Me* neu *Four in a Bed*, fel arall, dwi ddim yn gwylio lot o deledu.

Hoff air?

'Let's gooo!'

Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?

Instagram.

Swydd tasech chi ddim yn awdur? Swydd ddelfrydol?

Athrawes Ddrama mewn ysgol â phlant sydd wrth eu boddau'n dysgu.

Top tip i ddarpar awduron?

Ewch amdani.




## Jac a'r Angel

**Dafydd James**


Y Lolfa | 978-1-800995-35-2

Mae Jac yn byw ym mhentref bach Bethlehem gyda'i dad-cu, ond mae'r Nadolig wedi ei ganslo ar yr aelwyd eleni. Felly, pan ffrwydra angel allan o galendr adfent ei fam, a chynnig dymuniad iddo, mae'n edrych fel petai'r rhod yn troi. Ei ddymuniad? Cael chwarae rhan Mair yn sioe Nadolig yr ysgol. Ond pan mae'r Nadolig yn dechrau diflannu o'i gwmpas, mae Jac yn gwneud darganfyddiad a fydd yn newid ei fyd – a'r Nadolig – am byth.

### Cwestiynau trafod


- Mae'r stori'n digwydd dros wyliau'r Nadolig. A fyddech chi'n disgrifio'r llyfr fel llyfr Nadoligaidd yn unig, neu a oes themâu a neges sy'n addas i'r flwyddyn gyfan? Pam ydych chi'n meddwl hynny? Oes gennych chi hoff lyfr neu ffilm Nadoligaidd?
- Beth ydych chi'n meddwl yw neges y stori?
- Ydych chi wedi perfformio mewn drama o'r blaen? Neu hoffech chi berfformio?
- Mae'r awdur, Daf James, hefyd yn ddramodydd. Ydych chi wedi bod i'r theatr o'r blaen? Pa fath o sioeau ydych chi'n hoffi, neu hoffech chi weld?
- Beth yw eich barn chi am y darluniadau sydd yn y llyfr?
- Fel mae'n nodi ar gefn y clawr, mae 24 o benodau yn y llyfr, ac mae 24 o ddiwrnodau mewn calendr adfent. Sawl diwrnod fyddai'n ei gymryd i ddarllen llyfr sydd â 24 pennod os ydych chi'n darllen dwy bennod y dydd? Beth am dair pennod, neu bedair pennod y dydd?
- Sut ydych chi'n meddwl roedd Jac yn teimlo ar ddechrau'r stori? Sut oedd o'n teimlo erbyn diwedd y stori? Sut oeddech chi'n teimlo ar ddechrau ac ar ddiwedd y stori?

- A wnaeth y stori gwrdd â'ch disgwyliadau, ar ôl darllen y broliant ac edrych ar y clawr? Hoffech chi ei darllen eto yn y dyfodol?
- Mae Jac wrth ei fodd yn canu. Ydych chi'n hoffi canu? Beth yw eich hoff gân? Oes gennych chi hoff fand neu artist? Beth am greu rhestr o ganeuon i gyd-fynd â'r llyfr?
- Beth fyddech chi'n ei wneud pe baech chi'n derbyn cynnig fel yr un gafodd Jac? Pa ddymuniadau fyddech chi'n eu dewis?



**Gweithgaredd grŵp neu ddosbarth**

Yn yr ail bennod, mae Jac yn dod o hyd i galendr adfent ei fam. Mae disgrifiad ohono ar dudalen 19. Mae edrych ar y calendr fel 'sefyll ar drothwy byd o hud a lledrith, yn ôl Jac. Beth am ddylunio calendr hud a lledrith eich hunan, neu ysgrifennu disgrifiad eich hunan o rywbeth sy'n gudd tu ôl i un o'r ffenestri hudol? Neu, fel tasg i'r dosbarth cyfan, beth am ddylunio calendr darllen gyda syniadau ac awgrymiadau i chi eu cwblhau trwy gydol misoedd y flwyddyn?



## Wedi mwynhau *Jac a'r Angel*? Beth am roi cynnig ar y rhain nesaf?

- Cyfres *Y Frân Glocwaith* – Catherine Fisher – Firefly
- *Astronot yn yr Atig* – Megan Angharad Hunter – Y Lolfa
- Cyfres Cadi Goch a'r Ysgol Swynion – Simon Rodway – Y Lolfa
- *Y Llwynog Tân Olaf* – Lee Newbery – Firefly
- *Gerwyn Gwrthod a'r Llyfr Does Neb yn Cael ei Ddarllen* – Siôn Tomos Owen – Atebol

Adnabod Awdur

# Daf James



**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?** Yn y Bontfaen.
**Ble aethoch chi i'r ysgol?** Ysgol Iolo Morganwg ac Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf.
**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?** Ro'n i'n casáu'r bws ysgol. Roedd anarchiaeth llwyr: y bwlis yn cael eu ffordd eu hunain. Ond ro'n i'n ffindo cysur yn yr ystafell gerdd neu'r stiwdio ddrama; tym' bach fel Jac yn y llyfr!
**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny?** Actor. Do'n i ddim yn adnabod neb oedd yn sgwennu. Do'n i ddim yn gwybod bod hi'n bosib cael gyrfa fel sgwennwr!
**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?** *To Kill a Mockingbird*. Ro'n i hefyd yn hoff iawn o gyfres The Chronicles of Narnia a llyfrau Roald Dahl, Gwenno Hywyn ac Irma Chilton.
**Beth yw eich diddordebau?** Sgwennu a chyfansoddi. Rwy'n teimlo'n lwcus iawn bo' fi'n cael ennill bywoliaeth wrth neud beth fi'n ei garu. Fi'n mwynhau mynd i'r *gym* a chodi pwysau – achos rwy'n eistedd ar fy mhen-ôl drwy'r dydd yn sgwennu! Ddechreues i gael gwersi *cello* hefyd yn ddiweddar.
**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?** Fy ngŵr a'm plant!
**Beth sy'n eich gwylltio chi?** Fy ngŵr a'm plant! Ac arweinwyr a gwleidyddion yn dweud celwydd.
**Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?** Yn blentyn ro'n i'n dwli creu straeon byrion a barddoniaeth. Ond ro'dd popeth yn itha morbid a thywyll! Ro'n i'n ymarfer shwt i ymdopi ag emosiynau mawr bywyd drwy sgwennu.
**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?** O bobman! Profiadau personol, sgyrsiau fi'n eu gorglywed, rhywbeth fi'n ei ddarllen. Ambell waith ma syniad yn glanio: fel manna o'r nefoedd!
**Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?** Straeon am gymeriadau ymylol: pobl sy'n teimlo ar y 'tu fas'; straeon am gariad; am gymeriadau yn gorchfygu anhawsterau mawr; am deuluoedd; am hud a lledrith neu elfennau ffantasi a mytholegol; straeon am gymeriadau LGBTQ+, straeon sy'n ymwneud â cherddoriaeth. Rwy'n hoff iawn o straeon sy'n neud i fi chwerthin a chrio.

# Cwestiynau Cyflym

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**

To Kill a Mockingbird.

**Hoff gymeriad o lyfr?**

Rwy'n caru diniweidrwydd Paddington, ond fi wrth fy modd gyda chymeriadau cas fel Miss Trunchbull!

**Superpower o ddewis?**

Yn blentyn ro'n i'n arfer breuddwydio am hedfan yn aml; ond bydde bod yn anweledig yn itha cŵl hefyd! Se hynna'n briliant!

**Hoff fwyd?**

Unrhywbeth gan fy ngŵr – mae e'n athrylith yn y gegin!

**Hoff le?**

Adre, traeth Mwnt ac Ynys Llanddwyn.

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**

Fy mhlant yn chwerthin llond eu boliau... a'r gair 'ansbaradigaethus'!

**Hoff air?**

Ansbaradigaethus!

**Hoff ffilm/rhaglen deledu?**

*Y Dyn 'Nath Ddwyn y Dolig* – mae'r ffilm wedi ysbrydoli Jac a'r Angel.

**Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**

Instagram. Gan fy mod i'n trin geiriau drwy'r dydd, mae'n reit neis edrych ar ddelweddau.

**Swydd tasech chi ddim yn awdur? Swydd ddelfrydol?**

Frontman band cŵl yn perfformio yn Glastonbury, neu bêl-droediwr gorau'r byd am ddiwrnod o leiaf. Bydde fy mhlant wrth eu bodde 'fyd!

**Top tip i ddarpar awduron?**

Mae gan bawb ei ffordd unigryw o weld y byd; sgwennwch o'r galon a pheidiwch â bod ofn!




## Ein Cymru Ni

**Haf Llewelyn, Gail Sequeira, Richard Parks, Chantelle Moore**


Atebol | 978-1-801064-50-7

A hoffet ti glywed y stori am sefydlu Carnifal Tre-biwt? Neu am y cyn-chwaraewr rygbi, Richard Parks, a'i anturiaethau anhygoel? Dyma gasgliad o straeon am Gymru ddoe a heddiw, ac am gymeriadau o gefndiroedd amrywiol. Byddan nhw'n tanio dy ddychymyg ac yn archwilio sut rydyn ni'n perthyn i deulu, i gymuned ac i'r byd mawr.

### Cwestiynau trafod


- Mae Shahzaib a'i ffrindiau'n hoff o greu archarwyr sydd â phwerau hudolus. Petaech chi'n gallu cael pŵer hud, beth fyddai a pham?
- Ydych chi wedi cael unrhyw brofiad o rywun yn camynganu eich enw chi neu enw eich ffrind? Sut mae'n gwneud i chi deimlo? Ydy ynganu enw rhywun arall yn amharchus?
- Ydych chi, fel Richard Parks, erioed wedi teimlo'n nerfus cyn gwneud rhywbeth? Disgrifiwch hynny ac esboniwch pam yr oeddech chi'n nerfus.
- Pa mor bwysig yw brawddeg agoriadol y stori 'Troedio Trywydd Newydd': 'Mae'r byd yn perthyn i ni i gyd…'?
- Pam ei bod hi'n bwysig fod pawb yn cael cyfle cyfartal i lwyddo?
- Ydych chi wedi cyflawni unrhyw beth sy'n bwysig iawn i chi? Os ydych chi, esboniwch beth, gan ddweud pam ei fod mor bwysig.
- Ydych chi'n gwybod beth yw ystyr y gair 'cymodi'? Pa mor bwysig yw hi i gymodi yn eich barn chi?

- Mae yna sôn am fynydd Epynt yn y stori 'Bara a Chaws'. Beth ydych chi'n ei wybod am hanes mynydd Epynt? Ewch ati i wneud gwaith ymchwil am yr ardal.
- Ydych chi wedi ymweld â'r wefan Mapcymuned.cymru? Beth oedd eich barn chi am yr adnodd yma?
- Ar ddiwedd pob stori, mae yna ffeithiau allweddol a chwestiynau. A ydych chi'n credu fod y rhain yn ddefnyddiol? Pam? Beth sydd well gennych chi – darllen straeon byrion, fel *Ein Cymru Ni*, neu nofel? Rhowch resymau.



**Gweithgaredd grŵp neu ddosbarth**

Mae Dawood a Dai yn dod yn fwy o ffrindiau wrth iddyn nhw fwyta'r *shankleesh* roedd Sitti Dawood wedi ei baratoi. Pa fwydydd o ddiwylliannau eraill ydych chi'n mwynhau eu bwyta? Beth am wneud gwaith ymchwil i ddod o hyd i ryseitiau o Gymru, a gwahanol ryseitiau ar draws y byd? Yna, ewch ati i greu llyfr ryseitiau eich hun gyda'r wybodaeth. Gallwch hefyd greu stori fer, ffeil ffeithiau neu ddarluniadau i gyd-fynd â phob rysáit.



**Wedi mwynhau *Ein Cymru Ni*?**
**Beth am roi cynnig ar y rhain nesaf?**

- *Zac a Jac* – Cathy Jenkins – Graffeg
- *Bwyd y Stryd, Bwyd y Byd* – Gail Sequeira – Atebol
- *Y Lliwiau i Gyd* – Stori Betty Campbell – Casia Wiliam – Gwasg Carreg Gwalch
- *Ac Rwy'n Clywed Dreigiau/And I Hear Dragons* – Firefly

### Adnabod Awdur

# Richard Parks



**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?** Cefais fy ngeni ym Mhontypridd a'm magu yng Nghasnewydd, a Chaerdydd yw 'gartref' nawr.

**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny?** Cogydd, a pherchennog fy mwyty fy hun! Wnes i erioed freuddwydio y buaswn i ryw ddydd yn gwneud yr hyn dwi'n ei wneud nawr. O edrych yn ôl ar fy mywyd, mae llawer o'r cyfleoedd dwi wedi'u cael wedi deillio o amseroedd anodd.

**Beth yw eich diddordebau?** Dwi wrth fy modd yn creu, gwneud ac adeiladu! Un o fy atgofion mwyaf melys yw'r adeg pan fues i a fy nhad yn adnewyddu fy nghartref. Dwi'n hoff iawn o chwarae Lego gyda fy mab – gobeithio na fydda i byth yn rhy hen i wneud hynny! Dwi'n mwynhau bod allan yn yr awyr agored, yn treulio amser gyda theulu a ffrindiau, ac yn hyfforddi'r tîm rygbi bach lleol. Dwi'n hapusach pan dwi'n brysur.

**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?** *Charlie and the Chocolate Factory* gan Roald Dahl.

**Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?** Doeddwn i ddim yn dda iawn yn y pwnc Saesneg yn yr ysgol. Datblygodd fy nghariad at ysgrifennu pan oeddwn yn oedolyn, pan ddaeth fy ngyrfa rygbi i ben oherwydd anaf. Dechreuais gadw dyddiadur, i fy helpu i brosesu fy emosiynau yn ystod y cyfnod anodd hwnnw.

**Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?** Dwi'n hoffi darllen llyfrau sy'n dysgu rhywbeth i fi neu sy'n gwella fy nealltwriaeth o'r byd, ac sy'n fwy ffeithiol eu naws.

**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?** Byddwch yn chi eich hun. Cefnogwch eich hun. Dim ond un ohonoch chi sydd yn y byd. Does neb arall all ddweud eich stori chi.

**Oes gennych chi unrhyw arferion pan fyddwch chi'n ysgrifennu?** Pan fydda i'n dechrau, dwi'n derbyn na fydda i'n ysgrifennu unrhyw beth o werth yn y 30 munud cyntaf. Mae'n cymryd amser i gau allan sŵn y byd a dod o hyd i fy lle hapus i ysgrifennu.

# Cwestiynau Cyflym

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**

Charlie and the Chocolate Factory.

**Hoff gymeriad o lyfr?**

Charlie Bucket yn *Charlie and the Chocolate Factory*. Roeddwn i'n caru ei ddewrder, ei garedigrwydd a'i chwilfrydedd.

**Hoff fwyd?**

Cinio dydd Sul fy mam.

**Hoff le i ysgrifennu?**

Siop goffi. Dwi'n hoffi'r sŵn yn y cefndir.

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**

Popeth!

**Hoff ffilm/rhaglen deledu?**

Dwi'n hoffi eistedd ar y soffa gyda fy nheulu yn gwylio *Survivor*.

**Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**

Dwi ddim yn hoffi'r cyfryngau cymdeithasol.

**Hoff air?**

Hiraeth.

**Top tip i ddarpar awduron?**

Byddwch yn chi eich hun. Cefnogwch eich hun.




## Anturiaethau'r Brenin Arthur

**Rebecca Thomas**

Gwasg Carreg Gwalch | 978-1-845279-46-2


Pwy yw'r arwr sydd ei angen ar Gymru heddiw? Mae criw o blant o Fannau Brycheiniog yn meddwl eu bod nhw'n gwybod yr ateb!

Tasg ddigon syml yw dod o hyd i'r Brenin Arthur, ei ddeffro a'i berswadio i'w helpu i achub y byd.  Ond does neb yn barod am yr antur fydd yn dilyn...

### Cwestiynau trafod


- Beth yw dy farn am y clawr? Ydy'r clawr yn gwneud i ti eisiau darllen y nofel?
- Wyt ti'n hoffi hanes? Oeddet ti wedi clywed am y Brenin Arthur cyn darllen y stori? Beth oeddet ti'n ei wybod amdano?
- Wyt ti'n credu bod angen i ti hoffi hanes er mwyn mwynhau'r stori yma?
- Beth wyt ti'n credu yw prif neges y stori?
- Mae gan bob un o'r ffrindiau yn y stori eu cryfderau. Beth fyddet ti'n dweud yw dy gryfderau di a dy ffrindiau di?
- Mae'r ffrindiau yma ar dipyn o antur. Wyt ti'n gallu meddwl am unrhyw daith antur rwyt ti a dy ffrindiau wedi bod arni?
- Wyt ti'n gallu esbonio beth yw pwrpas y daith hon? Beth mae'r ffrindiau yn ceisio'u cyflawni?
- Oes rhywbeth wyt ti'n teimlo'n angerddol amdano? A fyddet ti'n hoffi gwneud gwahaniaeth yn y byd? Os felly, sut?
- Nid oedd Gwen yn hoff iawn o ddringo mynyddoedd. Gwna restr o'r holl fanteision o ddringo mynyddoedd fel Pen y Fan?

- Fe wnaeth y criw o ffrindiau yma weithio fel tîm er mwyn cyrraedd y nod. Wyt ti'n gallu meddwl am enghraifft lle bu'n rhaid i ti weithio mewn tîm er mwyn llwyddo i wneud rhywbeth? Rho fanylion.



**Gweithgaredd grŵp neu ddosbarth**

Mae yna lawer o sôn am Fannau Brycheiniog yn y stori a nifer o lynnoedd yr ardal. Oeddech chi wedi clywed am y llefydd/llynoedd yma cyn darllen y stori? Beth am wneud gwaith ymchwil i rai o'r llynnoedd nad ydych chi wedi clywed sôn amdanynt ac yna creu cyflwyniad i'w rannu gyda'r dosbarth?




**Wedi mwynhau *Anturiaethau'r Brenin Arthur*?**
**Beth am roi cynnig ar y rhain nesaf?**

- *Anturiaethau'r Afanc* - Rebecca Thomas – Gwasg Carreg Gwalch
- *Croen y Cefnfor* - Natasha Bowen - Rily
- Cyfres *Manawydan Jones* – Alun Davies – Y Lolfa
- *Meirw Byw* – Rolant Tomos – Gwasg Carreg Gwalch

Adnabod Awdur

# Rebecca Thomas



**Ble cawsoch chi eich geni a'ch magu?** Caerdydd.
**Ble aethoch chi i'r ysgol?** Ysgol Gyfun Gymraeg Glantaf.
**Beth roeddech chi'n ei hoffi neu'n ei gasáu am yr ysgol?** Ro'n i'n hoffi gwersi Cymraeg a Hanes, a'r tripiau ysgol.
**Beth oeddech chi eisiau bod ar ôl tyfu i fyny?** Newyddiadurwr.
**Pa un oedd eich hoff lyfr yn blentyn?** Cyfres The Famous Five gan Enid Blyton.
**Beth yw eich diddordebau?** Rwy'n hoffi coginio a phobi cacennau ac yn mwynhau cerdded yn y mynyddoedd ar benwythnosau.
**Beth sy'n eich gwneud chi'n hapus?** Awyr iach ar ddiwrnod braf! Rydw i wrth fy modd yn mynd am dro o gwmpas y llyn ger fy nhŷ a stopio am goffi ar y ffordd.
**Beth sy'n eich gwylltio chi?** Pobl sy'n taflu sbwriel allan o ffenestri eu ceir.
**Pryd ddechreuoch chi feddwl am ysgrifennu?** Ro'n i tua deg mlwydd oed. Wnes i ysgrifennu stori fer wedi ei gosod ym myd Star Wars mewn gwerslyfr bach llwyd. Yn fuan wedyn wnes i ddechrau adrodd straeon i ddiddanu fy mrawd bach wrth siopa yn yr archfarchnad.
**O ble rydych chi'n cael eich syniadau?** O'r byd o'm cwmpas. Rwy'n aml yn cael syniadau pan rydw i allan yn cerdded. Ar gyfer fy nofelau hanesyddol, rwy'n darllen llawer o lyfrau am y cyfnod ac yn ymweld â safleoedd hanesyddol fel cestyll.
**Oes yna themâu/pynciau arbennig sy'n apelio atoch?** Rwyf wrth fy modd yn ysgrifennu am yr Oesoedd Canol ac am gymeriadau chwedlonol fel y Brenin Arthur.
**Oes gennych chi gyngor i rywun sy'n trio ysgrifennu?** Darllen! Mae darllen yn gymaint o hwyl ac mae hefyd yn rhoi cyfle i chi ddatblygu eich sgiliau ysgrifennu trwy feddwl am sut mae awduron eraill yn gwneud.
**Beth yw'r peth gorau/gwaethaf am fod yn awdur?** Y peth gorau yw gallu dianc i fyd arall rydw i wedi ei greu – rydw i wrth fy modd yn treulio amser yn meddwl am fy nghymeriadau, am ble maen nhw'n byw a sut maen nhw'n teimlo. Weithiau, rwy'n mynd yn rhwystredig ac yn methu meddwl am sut i ysgrifennu fy syniadau – dyna'r peth gwaethaf. Ond y peth gorau i wneud bryd hynny yw cau fy nghyfrifiadur, mynd am dro, a dychwelyd at y gwaith yn hwyrach.

# Cwestiynau Cyflym

**Hoff lyfr o'ch plentyndod?**
Cyfres The Famous Five gan Enid Blyton.

**Hoff gymeriad o lyfr?**
Aragorn o The Lord of the Rings.

**Superpower o ddewis?**
Gallu hedfan.

**Hoff fwyd?**
Pitsa.

**Hoff air?**
Annibendod.

**Hoff le?**
Llyn Syfaddan.

**Beth sy'n gwneud i chi wenu?**
Coffi neis.

**Hoff ffilm/rhaglen deledu?**
Star Wars.

**Hoff rwydwaith cyfryngau cymdeithasol?**
Instagram.

**Swydd tasech chi ddim yn awdur? Swydd ddelfrydol?**
Byddwn i'n hoffi ysgrifennu ar gyfer y teledu.

**Top tip i ddarpar awduron?**
Darllenwch yn eang ac ysgrifennwch yr hyn yr ydych chi eisiau ei ysgrifennu.

# GORNEST LYFRAU 2026

CYNGOR LLYFRAU CYMRU
BOOKS COUNCIL of WALES

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

Wedi'i drefnu a'i gydlynu gan Gyngor Llyfrau Cymru